Ein Gwlad

Darlleniad: Salm 33:12

O! DDUW
Ein Duw
RHOWN GLOD, DIOLCH A MAWL
Y parch a'r bri i ti am y Gymru hon
AM DY RODD I NI MEWN IAITH, DIWYLLIANT A HANES.

AM Y GORFFENNOL
Rhown ddiolch
AM YR ENWOG A LAFURIODD HYD FLINDER, HYD ABERTH
Rhown ddiolch
AM Y NODEDIG A LAFURIODD DAN DDIRMYG A PHOEN, A GADAEL BENDITH AR EU HÔL
Rhown ddiolch
AM Y NIFEROEDD DI-SÔN ERAILL A FU'N DYFAL LAFURIO ER NA CHLYWODD Y GENEDL FAWR DDIM AMDANYNT
Rhown ddiolch
AM I TI EIN BENDITHIO Â SEINTIAU DEWRION AC ARWEINYDDION; GWŶR A GWRAGEDD O DDAWN, DEWRDER A DYSG
Rhown ddiolch
YMHYFRYDWN YN EU HESIAMPL A'U LLAFUR.

O! DDUW
Ein Duw
AM Y PRESENNOL
Rhown ddiolch
GWELI DI EIN RHINWEDDAU ...
Gweli di ein gwendidau

DEISYFWN ARNAT
Derbyn ein gweddi
RHAG RHITH O GREFYDD HEB EI GRYM

O! Dduw, gwared ni
RHAG CYMDEITHAS HEB EI CHYDWYBOD
O! Dduw, gwared ni
RHAG DIBRISIO EIN HIAITH
Goriad ein gorffennol,
EIN TOCYN I'R DYFODOL
O! Dduw Dad, gwared ni dy bobl
RHAG RHANIADAU - TRADDODIAD AC ARFER
Hil a dosbarth
rhwng y braf eu byd a'r tlawd
RHAG RHANIADAU SY'N LLADD BRAWDOLIAETH AC YN GWENWYNO CYMDEITHAS
O! Dduw, ein Duw, gwared ni
DYRO I'TH BOBL LYWODRAETH UNION A CHYFRAITH GYFIAWN, YMDRECH ANGERDDOL A GWELEDIGAETH GREADIGOL
I ymgnawdoli dy gariad ym mywyd ein gwlad.

O! DDUW
Ein Duw
AM Y DYFODOL
Rhown ddiolch
OS GWELI DI'N DDA
Dyro inni ryddid
HEDDWCH A LLAWENYDD
Dyro ras inni
DDERBYN YN SIRIOL Y PETHAU NA ELLIR EU NEWID
Y dewrder i newid y pethau y gellir eu newid
A'R DOETHINEB I WYBOD Y GWAHANIAETH
RHYNGDDYNT
O! Dduw
EIN DUW
Clyw ein gweddi. Amen.

Owain Llyr Evans